Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 12.01.2021

## Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector yr ERF yn agor 13 Ionawr 2021

Bydd pecyn Cronfa Cadernid Economaidd diweddaraf Llywodraeth Cymru gwerth £180 miliwn ar gyfer y sector lletygarwch, hamdden a thwristiaeth yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau coronafeirws yn agor ar gyfer ceisiadau o 12:00pm ddydd Mercher 13 Ionawr 2021. Bydd y gronfa yn pahrau i fod ar agor am bythefnos neu tan i'r cyllid gael ei ymrwymo'n llawn. Defnyddiwch y gwiriwr cymhwysedd i adolygu'r meini prawf yma:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

I ddarllen canllawiau'r gronfa cyn iddo agor, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-penodol-ir-sector-cronfa-cadernid-economaidd-erf

## Y Cynllun Cadw Swyddi

Rhaid i geisiadau am Gynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (CJRS) am gyfnodau ym mis Rhagfyr 2020 gael eu gwneud erbyn 14 Ionawr 2021. Mae rhagor o fanylion a dyddiadau cau misol i'w gweld ar wefan Busnes Cymru, ewch i:

http://bit.ly/2LsXIet

# Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol yn parhau ar gyfer 2021. Fel rhan o'r ymgyrch cyn Nadolig, bu cyfle i fusnesau gael eu rhestru ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Yr ydym yn parhau i fod yn awyddus i glywed gan unrhyw fusnes sydd yn dymuno cael ei gynnwys ar y wefan, a gan unrhyw fusnes sydd bellach yn cynnig dull gwahanol o weithredu e.e. clic a chasglu / gwasanaeth danfon ayyb.

Cysylltwch â: twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

# Cyhoeddi cynllun brechu Covid newydd

Ddoe, 11 Ionawr 2021, mi wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun brechu Covid newydd sy'n nodi tair carreg filltir allweddol.

- Erbyn canol mis Chwefror – holl breswylwyr a staff cartrefi gofal; staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen; bydd pawb dros 70 oed a phawb sy'n eithriadol agored i niwed yn glinigol wedi cael cynnig brechlyn.

- Erbyn y gwanwyn – bydd brechlyn wedi'i gynnig i'r holl grwpiau blaenoriaeth cam un eraill. Mae hyn yn bawb dros 50 oed a phawb sydd mewn perygl oherwydd bod ganddynt gyflwr iechyd sylfaenol.

- Erbyn yr hydref – bydd brechlyn wedi'i gynnig i bob oedolyn cymwys arall yng Nghymru, yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI).

I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/35y6DSO

I weld manylion y strategaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/strategaeth-frechu-covid-19

# Cynhadledd Emerging Tech Fest 2021

Digwyddiad 3 diwrnod, o 26-28 Ionawr 2021, yw Emerging Tech Fest 2021 a fydd yn arddangos rhywfaint o'r dechnoleg fwyaf cyffrous yng Nghymru a thu hwnt, gyda thair sesiwn ddysgu dros ginio. Arweinyddiaeth agweddau ystyrlon, cysylltiadau gwerthfawr ac arloesi sy'n torri tir newydd, bydd y profiad digwyddiad rhithwir hwn yn dangos sut mae'r sector technoleg arloesi yn gweddnewid bywydau a diwydiannau. O ficrofusnesau i gorfforaethau rhyngwladol, mae gan Emerging Tech Fest rywbeth i bawb. Am ragor o wybodaeth, ac i gofrestru am ddim, ewch i wefan Emerging Tech Fest.

https://www.emergingtechfest.com/

# MIT Cynhadledd Rhithwir Cymru Chwefror 2021

- Sut allwn ni fod yn fwy arloesol?
- Sut mae dyfodol byd gwaith yn edrych a sut bydd technoleg yn newid ein bywydau?
- Sut mae rheolwr da yn rheoli newid?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle unigryw ichi ystyried y cwestiynau mawr hyn ar y cyd ag un o'r sefydliadau uchaf ei barch y byd: Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT). Ar y cyd â Rhaglen Cyswllt Diwydiannol MIT (ILP), bydd gan Gymru gyswllt unigryw ag arweinwyr meddwl byd-eang yn MIT a fydd yn cyflwyno cyfres o seminarau rhyngweithiol ar amrywiaeth o bynciau. Cynhelir y seminarau ar-lein am ddim ar 3, 10 a 17 Chwefror 2021 rhwng 1.15pm a 2:00pm. I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu eich lle, ewch i ddigwyddiadur Busnes Cymru.

http://bit.ly/39qyZQ8

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru